BookTrust
Getting children reading

Dechrau



# Adroddiad Effaith

2022/23

# Cynnwys


## Croeso a Chrynodeb

Croeso ........ 03
Diolch ........ 04
BookTrust yn 2022/23: cipolwg ........ 06
BookTrust yn 2024: Beth nesaf? ........ 09

## Ynglŷn â BookTrust

Cyflwyniad i BookTrust a'n model effaith ........ 10
Pam mae darllen yn bwysig ........ 12
Ein dull o gael teuluoedd i ddarllen ........ 13
Dull BookTrust sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth o newid bywydau plant ........ 15

## Ein Heffaith

**Maes ffocws 1: Y Blynyddoedd Cynnar** ........ 18
Ymgorffori darllen ym mywyd pob teulu incwm isel

**Maes ffocws 2: Plant o gefndiroedd teuluol bregus** ........ 25
Defnyddio darllen ar y cyd i ddod â mwynhad a sefydlogrwydd i blant bregus

**Mae ffocws 3: Cymorth i ymarferwyr** ........ 28
Cefnogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar i hyrwyddo darllen ar y cyd mewn teuluoedd

**Maes ffocws 4: Ysgolion** ........ 31
Cefnogi ysgolion i feithrin cariad at ddarllen

Uchafbwyntiau eraill yn 2022/23 ........ 35

## Cyfeiriadau a Methodoleg ........ 38


### Sut i ddefnyddio'r PDF hwn

Cliciwch i ddychwelyd i'r cynnwys

Cyswllt fideo allanol

Defnyddiwch y tabiau adran digidol ar y dde i lywio rhwng adrannau


Croeso
Ynglŷn â BookTrust
1: Y Blynyddoedd Cynnar
2: Cefndiroedd bregus
3: Cymorth i ymarferwyr
4: Ysgolion
Cyfeiriadau

# Cyflwyniad



## Croeso

Roedd 2022/23 yn gyfnod heriol i'r plant a'r teuluoedd mae BookTrust yn eu cefnogi ac mae'r heriau sy'n eu hwynebu yn parhau heddiw. Mae llawer mwy o deuluoedd yn byw mewn tlodi oherwydd yr argyfwng costau byw. Mae plant a gollodd gyfleoedd datblygu hanfodol yn ystod y pandemig ar ei hôl hi o ran sgiliau datblygu iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mae eu lles cymdeithasol ac emosiynol wedi cael eu heffeithio.

Mae BookTrust yn gwybod bod darllen ar y cyd yn gynnar yn helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant, gan fynd i'r afael â rhai o effeithiau negyddol tlodi a'r pandemig. Gyda'r heriau digynsail sy'n wynebu teuluoedd a phartneriaid sy'n gweithio gyda nhw, mae'n bwysicach nag erioed i ddylunio cefnogaeth yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn o fywydau ac anghenion teuluoedd. Ac mae'n hanfodol ein bod ni'n cyfeirio adnoddau cyfyngedig, gan gynnwys amser prin ein partneriaid, yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn cefnogi'r plant mwyaf anghenus. Dyna pam ein bod ni'n cymryd dealltwriaeth a gwella ein heffaith gymaint o ddifrif.

Roedd 2022/23 yn flwyddyn hollbwysig i BookTrust. Rydym ni wedi gweld yr arwyddion addawol cyntaf o effaith ein strategaeth newydd a'n rhaglenni newydd sydd wedi'u cynllunio i gael teuluoedd i ddarllen. Mae gwerthuso gyda rhieni a gofalwyr yn dangos ein bod ni'n cyflawni'r canlyniadau rydym ni wedi'u cynllunio ar eu cyfer: mwynhad rhieni/gofalwr a phlant, teuluoedd yn dysgu mwy am fanteision darllen a ffyrdd newydd o fwynhau gyda'i gilydd, a defnyddio ac ymgysylltu â'n hadnoddau dro ar ôl tro. Yn ei dro, mae mwy o deuluoedd yn treulio mwy o amser yn darllen gyda'i gilydd. Mae hyn yn golygu bod mwy o blant yn fwy tebygol o brofi manteision trawsnewidiol darllen: cyrraedd nodau datblygu cynnar, gwell parodrwydd a chyrhaeddiad yn yr ysgol, creadigrwydd ac empathi cryfach, gwell lles a gwell dealltwriaeth o'r byd.

Mae'r gwaith hwn yn gosod sylfeini cadarn i'r genhedlaeth hon o blant brofi darllen yn gynnar yn ystod plentyndod, gan helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd iddynt. Rydym ni'n ddiolchgar iawn i'n rhwydwaith eang ac amrywiol o bartneriaid sy'n gwneud hyn yn bosibl. Gan weithio gyda miloedd o ymarferwyr a sefydliadau yn y gymuned, a gyda chefnogaeth hael ein partneriaid a'n cyfeillion ariannu presennol ac yn y dyfodol, gallwn barhau i ehangu ein heffaith ar gyfer plant y genhedlaeth hon a phlant cenedlaethau'r dyfodol.



Diana Gerald
Prif Swyddog Gweithredol, BookTrust

# Diolch

**Rydym ni am ddiolch yn fawr iawn i'r miloedd o bartneriaid BookTrust sy'n gweithio gyda ni, ac yn benodol i:**

- Ein **Noddwr, Ei Mawrhydi'r Frenhines**, am ei nawdd a'i chefnogaeth barhaus i achos darllen a'n **Llywydd**, **Michael Morpurgo**, am ei gefnogaeth a'i ysbrydoliaeth hirsefydlog.
- Ein **rhwydwaith cenedlaethol o Gydlynwyr Dechrau Da, awdurdodau lleol, ymarferwyr a phartneriaid cymunedol**, sy'n gweithredu ym mhob cymuned yng Nghymru a Lloegr, ac yn rhanbarthol yng Ngogledd Iwerddon. I'r rhai sy'n cefnogi teuluoedd mewn llyfrgelloedd, sefydliadau cymunedol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, ymwelwyr iechyd ac i awdurdodau lleol a phartneriaid ysgolion, diolch i chi am fod yn rhan hanfodol o'r hyn rydym ni'n ei wneud.
- Ein **partneriaid yn y maes cyhoeddi, awduron a darlunwyr**, sydd wrth wraidd ein gwaith i ysbrydoli plant a theuluoedd ar eu teithiau darllen.

> **"Roedd gennym ni gwpl o lyfrau [gartref], ond dwi 'di dysgu o ddod yma sut i fwynhau darllen llyfrau iddi [fy merch] lot mwy. Mae'n rhywbeth na fyddwn i wedi gwneud llawer ohono, mae'n debyg. Nawr, rydym ni'n ei wneud bob nos."**
>
> Rhiant plentyn y blynyddoedd cynnar, Gogledd-orllewin Lloegr

**Rydym ni'n ddiolchgar am y gefnogaeth hael rydym ni'n ei chael gan:**

- Cyngor Celfyddydau Lloegr
- Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon
- Llywodraeth Cymru
- Adran Addysg Gogledd Iwerddon
- Awdurdod Addysg Gogledd Iwerddon

> **"Rwy'n gwerthfawrogi gweithio gyda BookTrust. Rwyf wedi fy mhlesio'n fawr gydag ansawdd yr adnoddau a'r gefnogaeth sy'n cael ei chynnig, ac ni fyddem wedi gallu cynnig dim tebyg oni bai am BookTrust."**
>
> Cydlynydd Dechrau Da



A hoffem achub ar y cyfle hwn i gydnabod a diolch i rai o'r **unigolion, cwmnïau, ymddiriedolaethau a sefydliadau** niferus sydd wedi cefnogi ein gwaith yn hael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys:

- Alex Monroe
- Aquarius Water Solutions Ltd
- Backstop Advisory
- Browns Books
- Sefydliad Build-A-Bear
- Coleg AddysguSiartredig
- Cirrus
- Sefydliad Clifford Chance
- Sefydliad Cockayne Grants for the Arts and London Community
- Sefydliad Dot
- Sefydliad Elizabeth Frankland Moore and Star
- Eric Hieltes Stiftelse
- Founder's Pledge
- Ymddiriedolaeth George Cadbury
- Ymddiriedolaeth GMC
- Ymddiriedolaeth Elusennol Halbard
- Harris Poll
- Elusen Hyde Park Place Estate
- Julia and Hans Rausing
- Klaviyo
- KTC Edibles
- LBA books
- MarketingTwentyOne Ltd
- Mercury
- Sefydliad Miscellany
- Sefydliad Mohn Westlake
- Mushens Entertainment
- Newline Underwriting
- Norton Rose Fulbright LLP
- PDT Partners
- Promote Your School
- Reading Mate
- Renaissance Learning
- Ymddiriedolaeth Elusennol Roger Raymond Charitable
- Sefydliad RSM UK
- Cronfa Elusennau Cymrodyr Coleg Selwyn
- Sharegift
- Sefydliad Tanlaw
- Cymdeithas Folio
- Swyddfa Breifat
- Ymddiriedolaeth Elusennol Pitt-Rivers
- Ymddiriedolaeth Hippocleides
- Ymddiriedolaeth Elusennol Trevor Chinn
- Sefydliad Umbrella
- Vision Arch
- Sefydliad Vitol
- Wallace LLP
- Waterstones
- Westcoast
- Sefydliad Coffa Wyn a Ken Lo

**Yn olaf, hoffem ddiolch i'n Cyfeillion BookTrust a chefnogwyr ein hapeliadau, gan gynnwys y teuluoedd, yr ysgolion a'r meithrinfeydd a gefnogodd ein hymgyrch codi arian Pyjamarama.**

# BookTrust yn 2022/23: cipolwg

Roedd 2022/23 yn nodi ail flwyddyn ein strategaeth newydd i gefnogi teuluoedd incwm isel a phlant o gefndiroedd teuluol bregus i ddechrau darllen o'r eiliadau cynharaf yn ystod plentyndod. Roedd ein gwaith dros y cyfnod hwn yn cefnogi plant ym mhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym ni'n crynhoi rhai o'n gweithgareddau craidd, cyrhaeddiad ac effaith yma:

## Ein cyrhaeddiad

Cyrhaeddodd ein cynnig blynyddoedd cynnar newydd bron i 400,000 o blant 1-4 mlwydd oed a **32% o deuluoedd incwm isel gyda phlant ifanc 1–4 mlwydd oed**

Dosbarthwyd llyfrau ac adnoddau darllen i **dros 90% o deuluoedd â babanod newydd**

Fe wnaethom ni ddarparu **dros 1.2 miliwn o becynnau** oedd yn cynnwys **2.4 miliwn o lyfrau** i deuluoedd a phartneriaid

Roedd gennym ni **dros 6,000 o lwybrau danfon blynyddoedd cynnar** i deuluoedd incwm isel gyda phlant ifanc

Fe wnaethom ni gefnogi **mwy na 13,000 o blant o gefndiroedd teuluol bregus** – roedd y mwyafrif o'r rhain yn blant 3–13 mlwydd oed sy'n derbyn gofal

Fe wnaethom ni gefnogi **2,400 o lyfrgelloedd a thros 50,000 o blant** drwy Amser StoriBookTrust Storytime



Roedd gennym ni **gytundebau partneriaeth** gyda **phob awdurdod** lleol yng Nghymru a Lloegr

Fe wnaethom ni anfon ein Canllaw Llyfrau Mawr i **bob ysgol gynradd** yn Lloegr a Gogledd Iwerddon

Fe wnaethom ni ysgrifennu a chyhoeddi dros **370 o adolygiadau llyfrau** ar ein **platfform BookFinder**

Gwnaeth traean o ysgolion uwchradd y wladwriaeth a **272,000 o ddisgyblion** gymryd rhan yn ein rhaglen Bookbuzz

Cymerodd **dros 1,400 o blant a theuluoedd** a 650 o bartneriaid ran yng ngweithgareddau dysgu BookTrust

Yn 2022/23 yn unig, fe wnaethom ni gyrraedd **dros 1.9 miliwn o deuluoedd** ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

# Ein heffaith

Mae **88% o'n partneriaid** yn ein rhwydwaith blynyddoedd cynnar yn **dweud bod ein hadnoddau a'n gweithgareddau wedi eu cefnogi** yn eu gwaith

Mae **78% o'n partneriaid** yn ein rhwydwaith blynyddoedd cynnar yn dweud fod **adnoddau BookTrust o ansawdd uchel**

Mae **98% o deuluoedd** yn dweud eu bod wedi **mwynhau defnyddio ein hadnoddau a'n gweithgareddau blynyddoedd cynnar** newydd gyda'u plant

Mae **72% o deuluoedd** sy'n derbyn ein pecyn Dechrau Da Babi **yn dweud ei fod wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy hyderus** am ddarllen gyda'u plentyn

Mae **72% o deuluoedd** sy'n derbyn ein pecyn Dechrau Da Babi **yn dweud ei fod wedi eu helpu i ddod o hyd i ffyrdd newydd o dreulio amser gyda'u plentyn**

Mae **92% o deuluoedd yn nodi bod ein hadnoddau** blynyddoedd cynnar naill ai'n **dda neu'n rhagorol**

**Mae 82% o deuluoedd incwm isel** sy'n cymryd rhan yn ein rhaglenni blynyddoedd cynnar newydd **yn dweud eu bod nhw wedi dysgu ffyrdd gwahanol o rannu straeon gyda'u plant**

Mae **84% o deuluoedd incwm isel** sy'n cymryd rhan yn ein cynigion blynyddoedd cynnar newydd BookTrust **yn dweud bod y rhain wedi eu hysgogi i ddarllen mwy gyda'u plant**

Mae **96% o blant** mewn gofal sy'n derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau yn dweud eu bod nhw'n **hoffi neu'n caru defnyddio'r adnoddau**

Mae **68% o blant** mewn gofal sy'n derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau yn dweud eu bod bellach **yn darllen mwy ar eu pennau eu hunain**

> **"Roeddwn i bob amser yn casáu darllen nawr mae eich llyfrau wedi fy newid i felly diolch am hynny."**

Clwb Blwch Llythyrau, plentyn (11 mlwydd oed)






**“Rydych chi’n gweld plant yn dod i’r feithrinfa yn ddwy flwydd oed heb fawr o leferydd. Mae’n gwneud cymaint o wahaniaeth i ddod â’u rhieni i mewn, i fynd drwy’r pecynnau Babanod BookTrust gyda’ch gilydd a’u cael nhw i gymryd rhan mewn sesiwn stori. Bob wythnos, bydd teuluoedd yn gwrando ar yr un rhigymau, yr un straeon, ac yn gwneud yr un gweithgareddau yn seiliedig ar y stori rydyn ni’n ei rhannu. Byddwch chi’n gweld newid dros amser. Efallai nad ydw i’n gallu gwneud unrhyw beth am anghenion iechyd plentyn ond o ran eu hangen am ryngweithio a datblygu llythrennedd, rydych chi’n gweld bod y sesiynau hyn gyda’r pecynnau Dechrau Da Plant Bach yn gwneud gwahaniaeth mawr, mawr i ddatblygiad iaith y plant hynny.”**

Partner blynyddoedd cynnar

# BookTrust 2024: Beth nesaf?

Rydym ni'n falch o rannu'r adroddiad hwn sy'n crynhoi ein cynnydd yn 2022/23. Er bod ein tystiolaeth yn dangos ein bodni'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i brofiadau plant o gefndiroedd incwm isel a theuluoedd bregus, mae'r her yn fawr ac mae angen brys am ein gwaith. Ledled y DU, mae nifer cynyddol o blant yn byw mewn tlodi ac amddifadedd.[i] Mae mwy a mwy o blant yn wynebu'r heriau cymhleth sy'n gysylltiedig â phlentyndod mewn teuluoedd bregus.

Drwy gydol 2022/23, fe wnaethom ni gynnal dysgu dwfn gyda theuluoedd a phartneriaid ac mae'r mewnwelediadau o hyn yn llywio ein gwaith presennol. Rydym ni wedi gosod cynlluniau clir ac uchelgeisiol ar draws ein meysydd ffocws allweddol.

## Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 23/24 yn cynnwys:

- **Blynyddoedd Cynnar** – Esblygu ac ymgorffori'r rhaglen newydd Dechrau Da Plant Bach a Dechrau Da Cyn oed ysgol gan ymestyn ei gyrhaeddiad i fwy o deuluoeddblynyddoedd cynnar incwm isel (yn 2022/23 fe wnaethom ni gyrraedd 32% o'r teuluoedd hyn).
- **Plant bregus** – Parhau i gyrraedd plant sy'n derbyn gofal a phlant eraill o gefndiroedd teuluol bregus drwy'r Clwb Blwch Llythyrau a threialu cynigion newydd wedi'u cynllunio gyda theuluoedd, ymarferwyr arbenigol a phartneriaid a all sicrhau buddion penodol mwyaf posibl o ddarllen ar y cyd i blant bregus.
- **Cymorth i ymarferwyr** – Ehangu ein hymgysylltiad a'n cymorth ar gyfer partneriaid ymarfer.
- **Ysgolion** – Cefnogi mwy o athrawon ysgolion cynradd i ymgysylltu â'n hadolygiadau a'n hadnoddau, a datblygu cymorth digidol newydd i athrawon i helpu i gael cymunedau ysgol i ddarllen gartref ac yn yr ysgol.

Mae gennym ni gyfres o flaenoriaethau sefydliadol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein cynllun gwaith ar gyfer 2023/24:

- Blaenoriaethu a chynllunio strategol
- Dylunio seiliedig ar le ar gyfer effaith
- Mesur effaith cadarn
- Gweithio mewn partneriaeth



**Rydym ni'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'n rhwydwaith anhygoel o bartneriaid, rhoddwyr a chyllidwyr i sbarduno'r newid hwn.**

Yn 2023/24 mae gennym ni ffocws penodol ar feithrin perthnasoedd â phartneriaid cymunedol newydd, arianwyr a phartneriaid dysgu yn ein cenhadaeth i newid bywydau trwy gefnogi teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd. A wnewch chi ymuno â ni?

Cysylltwch â **impact@booktrust.org.uk** drafod sut y gallwch chi weithio gyda ni fel partner dysgu, ariannwr neu bartner cymunedol.

# Ynglŷn â BookTrust

## Cyflwyno BookTrust a'n model effaith

BookTrust yw'r elusen ddarllen plant fwyaf yn y DU. Bob blwyddyn rydym ni'n cyrraedd miliynau o blant a theuluoedd, gan eu hysbrydoli gyda llyfrau, adnoddau a chymorth i'w cael i ddechrau ar eu teithiau darllen. Rydym ni'n gweithredu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac mae gennym ni gytundebau partneriaeth hirdymor ar waith gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr.

Yn 2021 lansiwyd ein strategaeth newydd, **Y Bennod Nesaf**, sy'n nodi ein cenhadaeth i gael pob plentyn i ddarllen yn rheolaidd a thrwy ddewis fel y gallant brofi **manteision uniongyrchol a hirdymor darllen**. Mae'r strategaeth hon yn disgrifio ein huchelgais i dyfu fel sefydliad newid ymddygiad a arweinir gan dystiolaeth, gan gefnogi effaith ddofn a pharhaus ar raddfa ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol o blant. Ynddo, rydym ni'n blaenoriaethu diwallu anghenion plant sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf ac y gallai manteision darllen fod fwyaf trawsnewidiol iddyn nhw.

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cynnydd yn yr ail flwyddyn o gyflawni'r strategaeth newydd hon a'r effaith mae'n ei chael ar blant a theuluoedd o bob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.**



# Model effaith BookTrust

## Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn trwy hud a phŵer darllen

Mae **BookTrust** yn dylunio rhaglenni a chymorth a arweinir gan dystiolaeth i annog darllen er mwynhad. Mae ein hadnoddau a'n gweithgareddau o ansawdd uchel wedi'u cynllunio ar gyfer newid ymddygiad ac fe'u rhennir trwy ein rhwydwaith partneriaid helaeth, sy'n cael eu dewis yn arbennig gan BookTrust oherwydd eu gallu i gyrraedd y rhai mwyaf anghenus.

Mae **partneriaid BookTrust** yn ymgysylltu â'n hadnoddau o ansawdd uchel ac yn meddu ar yr offer a'r hyder i ymgysylltu teuluoedd â darllen, yn ogystal â gweld ei bwysigrwydd.

Mae **teuluoedd BookTrust** yn ymgysylltu â'n cynigion ar nifer o adegau drwy gydol y blynyddoedd cynnar a'r ysgol. Rydym ni'n darparu ystod amrywiol o lyfrau a gweithgareddau o ansawdd uchel, gan gynnig dewis i deuluoedd ynghylch sut i ymgysylltu â darllen, sy'n golygu eu bod nhw'n teimlo'n hyderus ac yn cael eu hysbrydoli i ddarllen.

**Mae darllen yn dod yn rhan arferol o fywyd** bob dydd i blant o gefndiroedd incwm isel a theuluoedd bregus.

### Mae teuluoedd yn profi manteision uniongyrchol a hirdymor darllen

**Goresgyn anfantais a achosir gan anghydraddoldebau.**

Gwell **symudedd cymdeithasol** a **chyrhaeddiad economaidd**.

**Yn hapusach ac yn iachach, gyda gwell lles meddyliol a hunan-barch.**

Gwell **bondio** ac **ymlyniad** cadarnhaol.

**Helpu plant i ddatblygu empathi a chreadigrwydd.**

Gwell dychymyg.

**Gwneud yn well yn yr ysgol a gwneud mwy o gynnydd ar draws y cwricwlwm.**

Gwell **lleferydd, iaith a llythrennedd**.

# Pam mae darllen yn bwysig

Mae'n gyfnod anodd i blant. Mae llawer mwy o deuluoedd bellach yn byw mewn tlodi oherwydd yr argyfwng costau byw.[ii] Mae plant a gollodd allan ar gyfleoedd datblygu hollbwysig yn ystod y pandemig wedi disgyn ar ei hôl hi o ran sgiliau datblygu iaith, llythrennedd a chyfathrebu.[iii] Mae eu lles cymdeithasol ac emosiynol hefyd wedi cael ei effeithio.

Rydym ni'n gwybod o ddegawdau o brofiad o weithio gyda degau o filiynau o blant a miloedd o bartneriaid lleol, bod darllen yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu i gyflawni canlyniadau da i blant. Mae'n cael effaith eang **ar ganlyniadau tymor byr a thymor hir**.

Yn y tymor byr, mae darllen yn cyfrannu at fondio ac ymlyniad, lles plant a rhieni, datblygiad ymennydd plant, eu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas, a pharodrwydd ysgol. Wrth i blant dyfu, mae'r rhai sy'n darllen yn rheolaidd ac o ddewis yn hapusach ac yn iachach, yn meddu ar well llythrennedd, yn perfformio'n well ar draws y cwricwlwm ac yn dangos empathi a chreadigrwydd cryfach. Yn y tymor hwy, gall darllen liniaru anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol hirdymor. I grynhoi: mae gan ddarllen y pŵer i newid bywydau. Mae buddsoddi mewn darllen plant yn gynnar yn ystod plentyndod yn golygu bod mwy o blant yn cael profi'r manteision uniongyrchol a hirdymor hyn.



Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn dangos, er bod y rhan fwyaf o deuluoedd â phlant ifanc yn gwybod bod darllen yn bwysig, eu bod nhw'n cael rhywfaint o drafferth i'w wneud yn rhan o fywyd teuluol . Mae 95% o deuluoedd yn gwybod ei bod yn bwysig darllen gyda'u plentyn ond mae 53% o rieni a gofalwyr plant oedran cynradd wedi dweud wrthym nad yw darllen yn chwarae rhan fawr yn eu bywyd fel teulu.



**Dim ond 42% o blant** oedd yn cael stori amser gwely (Ffynonellau: Arolwg Teulu BookTrust 2021 a 2022).

# Ein dull o gael teuluoedd i ddarllen

Mae BookTrust eisiau i bob teulu sefydlu trefn o ddarllen gyda'u babanod cyn gynted â phosibl a pharhau â hyn drwy gydol plentyndod, wrth i blant ddysgu darllen yn annibynnol.

Mae ein cenhadaeth yn uchelgeisiol. Rydym ni'n ceisio cael effaith ddofn a pharhaus ar draws miliynau o deuluoedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n byw dan amgylchiadau gwahanol, gan wynebu heriau gwahanol gydag anghenion, rhwystrau a chymhellion gwahanol. Ein nod yw cael effaith drwy bedwar maes ffocws allweddol:




## Pedwar maes ffocws BookTrust ar gyfer annog plant i ddarllen

### Maes Ffocws 1: Y Blynyddoedd Cynnar

Ymgorffori darllen ym mywyd pob teulu incwm isel

Roedd y gweithgareddau ar gyfer 2022/23 yn cynnwys:

- Darparu llyfrau, adnoddau a phrofiadau darllen ysbrydoledig o ansawdd uchel i deuluoedd incwm isel gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar wedi'u cynllunio i'w cymell a'u cefnogi i rannu straeon gyda'i gilydd yn rheolaidd, gan roi'r dechrau gorau i blant ar eu teithiau darllen.
- Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth wedi'i thargedu i 32% o deuluoedd incwm isel gyda phlant 1–4 mlwydd oed drwy'r rhaglenni newydd Dechrau Da Plant Bach a Dechrau Da Cyn oed ysgol.

### Maes Ffocws 2: Plant o gefndiroedd teuluol bregus

Defnyddio darllen ar y cyd i ddod â mwynhad a sefydlogrwydd i blant bregus

Roedd y gweithgareddau ar gyfer 2022/23 yn cynnwys:

- Cyflwyno Clwb Blwch Llythyrau, ein cynnig rhoddion aml-lyfr cenedlaethol hirsefydlog i blant sy'n derbyn gofal.
- Lansio rhaglen ddysgu helaeth i nodi sut i newid profiadau darllen yn y dyfodol fesul cam ar gyfer carfan ehangach o blant o gefndiroedd teuluol bregus.

## Maes Ffocws 3: Cymorth i ymarferwyr

### Cefnogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar i hyrwyddo darllen ar y cyd â'u teulu

Roedd y gweithgareddau ar gyfer 2022/23 yn cynnwys:

- Lansio offer Storïwr ffisegol a digidol i gefnogi ymarferwyr yn y gymuned i gael teuluoedd i ddarllen.
- Trwy Amser Stori BookTrust, cefnogi 2,400 o lyfrgelloedd i ymgysylltu â theuluoedd newydd mewn gweithgareddau llyfrgell ac annog teuluoedd i ddod yn ôl dro ar ôl tro.

## Mae Ffocws 4: Ysgolion

### Cefnogi ysgolion i feithrin cariad at ddarllen

Roedd y gweithgareddau ar gyfer 2022/23 yn cynnwys:

- Mae BookTrust yn cynrychioli rhaglen sy'n cynnwys digwyddiadau awduron ysbrydoledig ar-lein ac yn bersonol.
- Adnoddau o ansawdd uchel ar gyfer plant oed dosbarth derbyn.
- Gwaith datblygu i lywio sut i gynyddu ein heffaith yn y dyfodol ar gyfer plant sydd angen cymorth darllen fwyaf.

## BookTrust: rhoi ffocws i'n cefnogaeth er mwyn cael effaith

Er ein bod ni'n gwybod bod pob plentyn yn elwa o ddarllen, rydym ni wedi ymrwymo i gynnig cymorth wedi'i dargedu i deuluoedd o gefndiroedd incwm isel a bregus oherwydd ein bod yn gwybod bod y plant hyn yn elwa fwyaf o ddarllen yn rheolaidd ac o ddewis.

Rydym ni'n defnyddio'r term 'teuluoedd incwm isel' i nodi'r rhai sy'n byw mewn tlodi cymharol fel sy'n cael ei ddiffinio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Yn ystod 2022/23, roedd ein cefnogaeth i blant o gefndiroedd teuluol bregus yn canolbwyntio'n arbennig ar blant mewn gofal maeth hirdymor. Mae plant o gefndiroedd teuluol bregus hefyd yn cael eu gor-gynrychioli mewn cartrefi incwm isel.


**O'r 14 miliwn o blant yn y DU, mae 29% (4.2 miliwn)** yn byw mewn cartrefi incwm isel.



# Dull BookTrust o newid bywydau plant, sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth

Mae ein strategaeth 2021–25 yn dangos yr angen i BookTrust dyfu fel sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n cydnabod, er mwyn creu effaith barhaol ar newid ymddygiad i'r genhedlaeth hon o blant, mae angen i ni nodi, cyfieithu ac actifadu mewnwelediad ar draws ein holl waith a datblygu dull cadarn o fesur effaith. Ers 2021 rydym ni wedi trawsnewid ein dull o fesur dysgu, datblygu ac effaith, gan ymgorffori model cadarn i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein strategaeth:

## Model BookTrust a arweinir gan dystiolaeth i newid ymddygiadau darllen ar gyfer plant o gefndiroedd teuluol incwm isel a bregus



# Dysgu a mesur effaith yn BookTrust

Mae'r model dysgu rydym ni wedi'i gymhwyso i'n Dechrau Da Plant Bach, Dechrau Da Cyn oed ysgol ac Amser Stori BookTrust yn enghraifft o'n dull sefydliadol ehangach o ddylunio a mesur effaith sy'n canolbwyntio ar bobl i gael teuluoedd i ddarllen:

## Cam 1

Mae ein **strategaeth newydd** a'n **theori newid** yn cael eu llywio gan ymchwil helaeth a degawdau o waith gyda theuluoedd a phartneriaid. Diffiniodd ymchwil ein cynulleidfaoedd targed newydd a nodi sut i ymgorffori newid ymddygiad mewn darllen.Roedd yn egluro maint yr her a'n hangen i droi oddi wrth ein prif ffocws ar gaffael a dosbarthu llyfrau i deuluoedd, i ddatblygu cynigion gwasanaeth llawn, cyfuno adnoddau, cefnogaeth a phrofiadau i ysbrydoli newid ymddygiad.

## Cam 2

Fe wnaeth **ymchwil darganfod sylfaenol** dulliau cymysg a gynhaliwyd yn 2021 a 2022 gryfhau ymhellach ein dealltwriaeth o'r teuluoedd rydym ni'n bwriadu eu gwasanaethu, eu bywydau, eu blaenoriaethau a'u hanghenion, a chymhellion a rhwystrau i ddarllen.Roedd hyn yn cynnwys arolwg cenedlaethol o 2,148 o deuluoedd incwm isel, grwpiau ffocws gyda rhieni a gofalwyr a dysgu gydag ymarferwyr blynyddoedd cynnar.

## Cam 3

Yn seiliedig ar fewnwelediadau allweddol o'r gweithgareddau hyn, fe wnaethom gychwyn ar gyfnod dwys o **gyd-greu, dylunio, prototeipio a phrofi ar raddfa fach** gyda theuluoedd ac arbenigwyr blynyddoedd cynnar. Fe wnaeth y gwaith hwn lywio datblygiad ffyrdd newydd, effeithiol o gyrraedd a chefnogi teuluoedd, a fyddai'n cyflawni'r canlyniadau a nodir yn ein **theori newid**.

## Cam 4

Lansiwyd **cynllun peilot cenedlaethol ein rhaglen, Dechrau Da Plant Bach a Dechrau Da Cyn oed ysgol**, a gynlluniwyd ar gyfer teuluoedd incwm isel, i bron i 400,000 o blant trwy ein rhwydwaith o bartneriaid blynyddoedd cynnar. Ar yr un pryd fe wnaethom ni ddatblygu a lansio cynnig Amser Stori BookTrust mewn dros 2,400 o lyfrgelloedd. Roedd hyn yn nodi newid sylweddol yn ein cefnogaeth i ddiwallu anghenion teuluoedd incwm isel a bregus yn well trwy greu profiadau darllen gyda sawl pwynt cyswllt i ysgogi effaith fawr.

## Cam 5

Fe wnaethom gynnal **gwerthusiadau dulliau cymysg o'n cynigion** (arolygon, ymchwil ansoddol ac arsylwadol) i fesur eu llwyddiant yn erbyn y canlyniadau roeddem ni wedi cynllunio ar eu cyfer. Mae canfyddiadau'r gwerthusiadau hyn yn dangos cryfder ein heffaith a'n cynnydd, ac yn nodi beth arall mae angen i ni ei wneud i wneud darllen rheolaidd yn realiti i fwy o deuluoedd a phlant.

## Cam 6

Rydym ni'n parhau i **gymhwyso mewnwelediadau** o'n gweithgareddau dysgu i **arloesi newydd a gwelliant parhaus** yn ein portffolio o gefnogaeth i deuluoedd. Gan adeiladu ar ein dysgu blaenorol, fe wnaethom gynnal ymchwil newydd i ddyfnhau ymgysylltiad teuluol â darllen. Yn 2022 fe wnaethom gyflwyno rhaglen o ymchwil ethnograffig gyda 24 o deuluoedd cynulleidfa darged i nodi mecanweithiau newydd ar gyfer effaith newid ymddygiad. Mae mewnwelediadau o'r ymchwil hon yn ein helpu i ddiffinio a phrofi cyfleoedd ar gyfer newid ymddygiad yn y dyfodol.

Roedd 2022/23 yn flwyddyn bwysig o ddysgu i BookTrust. Fe wnaethom gynnal ymchwil sylfaenol drwy ein harolwg cenedlaethol o deuluoedd incwm isel; fe wnaethom ni gyd-ddylunio a phrofi gyda theuluoedd a phartneriaid arbenigol i lunio a darparu cynlluniau peilot cenedlaethol ar raddfa fach; fe wnaethom ni fonitro, dysgu a gwerthuso ein rhaglenni mawr drwy ddulliau cymysg mawr, a chyflwyno gwaith ethnograffig ar-lein gyda theuluoedd cynulleidfa darged. Mae'r gweithgareddau dysgu hyn yn llywio ein gwaith rhaglen barhaus, blaenoriaethau buddsoddi a chynllunio sefydliadol.

Rydym ni'n cyflwyno data o'n dulliau dysgu a mesur effaith trwy gydol y ddogfen hon.



# Ein Heffaith


## Maes ffocws 1: Y Blynyddoedd Cynnar

### *Ymgorffori darllen ym mywyd pob teulu incwm isel*

### Trosolwg

Mae cael teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd o'r eiliadau cynharaf yn dod â manteision uniongyrchol a hirdymor unigryw i blant a'r rhai sy'n darllen gyda nhw, ac mae'n hanfodol i adeiladu arferion darllen tymor hwy mewn teuluoedd. Mae darllen ar y cyd yn gynnar yn cefnogi bondio rhwng plant a'u rhieni[iv], yn ysgogi datblygiad yr ymennydd[v] ac yn gwella cwsg[vi]. Gall wella iechyd meddwl rhieni[vii] a helpu plant i gyrraedd nodau datblygu cynnar. Yn ystod 2022/23 fe wnaethom gynnydd rhagorol o ran cefnogi teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar ar eu teithiau darllen, gan ganolbwyntio'n benodol ar deuluoedd incwm isel. Yn dilyn ymchwil helaeth o'r hyn sy'n gweithio i gael teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd fe wnaethom ddatblygu ac ymestyn ein cynnig i blant 0–6 mlwydd oed:

### Taith ddarllen Blynyddoedd Cynnar BookTrust




**Darlun 1: Portffolio Blynyddoedd Cynnar BookTrust**

> “Cyn gynted ag y gwnaethom ni dderbyn [Dechrau Da Babi] cafodd ei ddenu ar unwaith at y lliwiau ac yn enwedig y rhannau cyffwrdd a theimlo, ac fe wnaeth fwynhau'r rhain yn fawr. Roedd gen i lyfrau ond doeddwn i byth yn teimlo bod gen i ddigon o amser i'w darllen yn gyson ag e. Cyn gynted ag y gwelais e gyda'r pecyn, sylweddolais gymaint yr oedd yn eu mwynhau ac rwy'n ceisio'n gyson bob dydd i ddarllen a gadael iddo eu cyffwrdd nhw. Rwy'n credu bod hwn yn becyn gwych i gael rhieni newydd i feddwl am bwysigrwydd darllen. Rwyf hefyd teimlo ei fod yn offeryn bondio da arall.”

Rhiant Blynyddoedd Cynnar, Lloegr



# Cyrhaeddiad ac effaith

## Dechrau Da Babi

Mae Dechrau Da Babi wedi cefnogi teuluoedd sydd â babanod newydd-anedig ers dros 25 mlynedd. Yn 2022/23 fe wnaethom ni adnewyddu ein pecynnau Dechrau Da Babi i sicrhau bod y dyluniad a'r cynnwys yn sbarduno eiliadau darllen cynnar mewn teuluoedd.

Fe wnaethom ni gyflwyno llyfrau a gweithgareddau chwareus a rhyngweithiol newydd. Fe wnaethom ni weithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, llyfrgelloedd, cofrestryddion a gweithwyr proffesiynol eraill yn y blynyddoedd cynnar i ddosbarthu llyfrau ac adnoddau i **dros 90%** o'r holl fabanod newydd-anedig yng Nghymru a Lloegr – gan roi mwy na **hanner miliwn** o becynnau Dechrau Da Babi.

Dywedodd **86% o rieni** a ymatebodd i'n harolwg gwerthuso **fod y llyfrau** sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn ymhlith **y cyntaf yr oeddent yn berchen arnyn nhw** i'w plentyn

Dywedodd **68% o rieni** fod Dechrau Da Babi wedi eu hysgogi i ddarllen a **rhannu straeon gyda'u plentyn yn fwy** nag y gallent o bosibl fod wedi'i wneud fel arall

Croeso
Ynglŷn â BookTrust
1: Y Blynyddoedd Cynnar
2: Cefndiroedd bregus
3: Cymorth i ymarferwyr
4: Ysgolion
Cyfeiriadau

## Mae BookTrust Blynyddoedd Cynnar yn cynnig: Dechrau Da Plant Bach a Chyn Oed Ysgol

Fe wnaethom ni ddylunio a lansio Dechrau Da Plant Bach, Cyn Oed Ysgol a'n hadnoddau Adrodd Straeon newydd ar gyfer ymarferwyr. (**Gweler 15** am fanylion am ein proses ddylunio). Mae'r rhaglenni hyn yn seiliedig ar dystiolaeth drylwyr ac yn darparu llyfrau, adnoddau a chymorth i ysbrydoli ac ysgogi teuluoedd ar incwm isel i ddarllen yn rheolaidd. Trwy ein gwaith datblygu, fe wnaethom ni nodi mewnwelediadau allweddol i fynd i'r afael â nhw wrth ddylunio'r rhaglenni hyn. Fe wnaethom ni ddysgu, er enghraifft, bod cysylltu llyfrau â gweithgareddau a phrofiadau eraill yn annog teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd, a phan fydd plant a rhieni yn mwynhau darllen gyda'i gilydd, maen nhw am ddarllen gyda'i gilydd yn amlach. Felly fe wnaethom ni ddatblygu ein hadnoddau newydd i gynnwys llyfrau rhyngweithiol a chwareus, syniadau am weithgareddau a phropiau ar gyfer gemau yn seiliedig ar y themâu yn y llyfrau.



Yn 2022/23, drwy ein rhwydwaith o **bartneriaid** cyflenwi blynyddoedd cynnar, ym mhob awdurdod lleol/cyngor ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, fe wnaethom lwyddo i gyrraedd bron i 400,000 o blant 1-4 mlwydd oed. Gyda mwy na 6,000 o lwybrau dosbarthu, fe wnaethom gyrraedd 32% o deuluoedd incwm isel gyda phlant yn y grŵp oedran hwn.

Mae ein gwerthusiad yn dangos bod y cynigion newydd yn cael teuluoedd i ddarllen, gan gyflawni'r canlyniadau y gwnaethom ni gynllunio ar eu cyfer, gan gynnwys mwynhad teuluol ac ysbrydoli teuluoedd gyda ffyrdd newydd o ddarllen gyda'i gilydd:



Mae ein data cynnar yn dangos bod effaith y cynigion hyn yn gryf, ac yn gweithio orau i deuluoedd incwm isel a oedd hyd yn oed yn fwy tebygol na theuluoedd yn gyffredinol i wneud y canlynol:

- **dysgu rhywbeth newydd** am fanteision darllen (77% o deuluoedd incwm isel o'i gymharu â 67% o deuluoedd yn gyffredinol)
- dysgu am **wahanol ffyrdd o ddarllen a rhannu straeon** gyda'i gilydd (82% o deuluoedd incwm isel o'i gymharu â 78% o deuluoedd yn gyffredinol)
- cael eu hannog i **ddarllen mwy** (84% o deuluoedd incwm isel o'i gymharu â 74% o deuluoedd yn gyffredinol)
- teimlodd 98% o deuluoedd bod BookTrust Blynyddoedd Cynnar yn cynnig adnoddau **cyffrous a phleserus**

## Amser Stori BookTrust

Amser Stori BookTrust yw ein cynnig llyfrgell ar gyfer plant dan 5 mlwydd oed wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, llyfrgelloedd a theuluoedd. Mae'r rhaglen yn creu profiadau darllen difyr a phleserus i deuluoedd, gan helpu i fagu hyder rhieni, gwella cynefindra â'r llyfrau gorau i'w rhannu gyda phlant ifanc, a chynyddu cymhelliant teuluoedd i rannu straeon gartref.Mae Amser Stori BookTrust yn cefnogi partneriaid yn eu gwaith i ymgysylltu â theuluoedd newydd, yn enwedig trwy annog y rhai o gefndiroedd incwm isel i ymweld â llyfrgelloedd ac yna dychwelyd atynt dro ar ôl tro.

Yn 2022/23, roedd 2,400 o lyfrgelloedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac amcangyfrifir bod 50,000 o blant yn defnyddio neu'n ymgysylltu ag Amser Stori BookTrust:

Roedd **45% o deuluoedd Amser Stori BookTrust** o **aelwydydd incwm isel**

Roedd **31% o'r teuluoedd** a brofodd Amser Stori BookTrust yn **newydd i'r llyfrgell** y gwnaethant ymweld â hi

**Dychwelodd 70% o'r teuluoedd i'r llyfrgell** ar ôl eu hymweliad Amser Stori BookTrust cychwynnol



**"Mae'r adnoddau'n lliwgar a rhyngweithiol iawn, yn union yr hyn mae staff a rhieni eu hangen i gefnogi ac annog darllen, maen nhw'n darparu offeryn gweithredol i rieni fondio gyda'u plentyn o oedran ifanc. Mae pob plentyn wrth ei fodd yn gwrando ar straeon hyd yn oed babanod bach. Mae'r adnoddau'n helpu i gefnogi'r daith ddysgu gan annog plant i ofyn cwestiynau am y byd o'u cwmpas."**

Cydlynydd Dechrau Da, Gogledd-ddwyrain Lloegr

Roedd ein gwaith gyda llyfrgelloedd hefyd yn cynnwys cynllun peilot arloesol gyda Cbeebies fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr, gan greu eiliadau cofiadwy i rannu straeon i deuluoedd y blynyddoedd cynnar.

## Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar i blant 2–3 mlwydd oed yng Nghymru

Diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru, fe wnaethom ni gyrraedd **dros 30,000 o blant 2–3 mlwydd oed yng Nghymru** gyda'r pecyn dwyieithog Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar. Mae'r cynnig hwn yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth ag ymwelwyr iechyd ledled Cymru yn ystod archwiliad iechyd 27 mis teuluoedd. Mae wedi'i gynllunio i ysgogi meddyliau ifanc a helpu rhieni i fwynhau rhannu stori gyda'u plant.

## Pori Drwy Stori

Nod rhaglen Pori Drwy Stori, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yw ysbrydoli cariad at lyfrau, straeon a rhigymau ac mae'n cefnogi plant i ddatblygu sgiliau siarad, gwrando a rhifedd. Yn 2022/23 fe wnaethom gyrraedd 20,000 o blant oed meithrin trwy Pori Drwy Stori a chymerodd bron i 34,500 o blant mewn dosbarthiadau derbyn ym mhob ysgol ran yn ein rhaglen ddwyieithog gyffrous, gan barhau â'u taith Pori Drwy Stori.

Roedd y rhan fwyaf o athrawon a gymerodd ran yn y rhaglen a'r gwerthusiad yn cytuno bod **Pori Drwy Stori yn cefnogi darllen er mwynhad yn eu dosbarth/ysgol** (48 allan o 67 athro dan sylw)

Dywedodd **64 allan o 67 o athrawon** yn y gwerthusiad Pori Drwy Stori bod **ansawdd y llyfrau yn dda neu'n ardderchog**

> **"Rwy'n deall pwysigrwydd chwarae gyda rhythm a rhigymau yn natblygiad iaith a'r hwyl mae'r plant yn ei gael wrth ddysgu siantiau, rhigymau a chaneuon newydd. Mae'r fenter yn cyd-fynd yn hyfryd â'n gwaith grŵp ymyrraeth llafaredd hefyd."**
>
> Athro ysgol gynradd, Cymru



## Amser Rhigwm Mawr Cymru

Fe wnaeth ein dathliad blynyddol o rannu rhigymau, cerddi a chaneuon, Amser Rhigwm Mawr Cymru, ddychwelyd i lyfrgelloedd, ysgolion a meithrinfeydd am y bumed flwyddyn.

Cymerodd **mwy na 24,000 o blant 0-5 mlwydd oed mewn dros 530 o leoliadau blynyddoedd cynnar** ran yn nigwyddiad Amser Rhigwm Mawr Cymru sy'n wythnos o hyd, a ddyluniwyd i greu profiadau darllen rhyngweithiol ac ysbrydoledig i blant a theuluoedd.

## Dechrau Da Anghenion Ychwanegol ac Iaith Ddeuol

Rydym ni'n gweithio i sicrhau bod pob plentyn **yn cael y dechrau gorau ar eu taith** ddarllen. Rydym ni'n darparu pecynnau arbenigol ar gyfer plant 0–2 a 3–5 mlwydd oed sy'n fyddar, yn ddall neu'n rhannol ddall, a gyda chyflyrau sy'n effeithio ar eu sgiliau echddygol manwl. Rydym ni hefyd yn cynnig llyfrau ac arweiniad dwyieithog i deuluoedd sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL).

Yn 2022/23, **defnyddiodd 98% o awdurdodau lleol** yn Lloegr ein llyfrau a'n hadnoddau anghenion ychwanegol ac fe wnaethom ni ddarparu llyfrau iaith ddeuol mewn dros **30 o wahanol ieithoedd**.

> **“Pan fyddwn yn rhoi'r llyfrau iaith ddeuol allan, mae'n achos llawenydd. Wir. Roedd yna deulu o Rwsia oedd wedi bod mewn gwesty ers amser maith. A rhoddais lyfr iaith ddeuol i'r fam … roedd hi wedi ei synnu pan welodd mai iaith ddeuol oedd o. Yna, pan ddychwelodd at y grŵp, dywedodd wrthyf fi faint yr oedden nhw wrth eu bodd â'r stori.”**
>
> M Hoffer, Cyngor Ffoaduriaid Cymru



**Astudiaeth achos:**

## Amser Stori BookTrust yn darparu eiliadau bondio



Cymerodd Llyfrgell Gogledd Bridlington ran yn **Amser Stori BookTrust**. Siaradodd y Llyfrgellydd Paul â ni am sut roedden nhw'n ei chael hi'n anodd annog tadau i ddod â'u plant i'r llyfrgell yn ystod yr wythnos, pan fydd llawer ohonynt yn y gwaith. Penderfynodd y llyfrgell gynnal sesiynau ychwanegol ar y penwythnosau ac mae eu cymuned o dadau yn parhau i dyfu.

Fe wnaethom siarad â John, un o'r tadau sy'n mynychu bob wythnos gyda'i ferch ddwyflwydd oed. Esboniodd sut y gwnaeth Amser Stori BookTrust ei helpu i fondio gyda'i ferch.

> **“Dwi'n hoffi'r syniad y bydd hi'n cofio mai hi a Dad oedd yna, ac mai dyma oedd ein hamser ni. Ar ôl hynny [...] rwy'n gallu ei gweld hi eisoes yn cymryd rhai o'r straeon, yr enwau, y pethau mae hi'n eu pigo i fyny. Pan mae hi'n chwarae gyda'i Duplo, er enghraifft, mae'r stori'n dod allan [...] bydd hi'n cyhoeddi rhywbeth ac mae pawb arall yn ddryslyd, fel: “Am beth ar y ddaear mae hi'n siarad?” Ond mi fyddaf i'n gwybod, achos ei fod yn dod o'r stori roedden ni'n ei darllen. Mae'n gwneud i chi deimlo'n arbennig, oherwydd dyna fy mheth i gyda hi.”**
>
> Tad, Gogledd-ddwyrain Lloegr

## Blynyddoedd Cynnar yn BookTrust: Beth ydym ni'n ei wneud nesaf?

**Mae ein blaenoriaethau newydd yn cynnwys:**

- Parhau i gyflawni ein portffolio blynyddoedd cynnar i dros 800,000 o deuluoedd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan gynyddu cyfran y teuluoedd incwm isel yr ydym ni'n eu cyrraedd.
- Profi ffyrdd newydd o gael teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd drwy beilot cyn-enedigol newydd, a llwybrau newydd i deuluoedd gan gynnwys trwy gynllun peilot mewn carchardai.

# Maes ffocws 2: Plant o gefndiroedd teuluol bregus

## *Defnyddio darllen ar y cyd i ddod â mwynhad a sefydlogrwydd i blant bregus*

### Trosolwg

Mae plant o gefndiroedd teuluol bregus yn wynebu heriau penodol wrth sefydlu darllen ar y cyd yn rheolaidd. Efallai mai prin yw eu mynediad at lyfrau deniadol a phriodol, a bod ganddynt fywydau ac amgylchiadau cymhleth a phrysur sy'n gwneud arferion a defodau rheolaidd yn anodd.

Yn 2022/23, fe wnaethom barhau i adeiladu ar ein hanes hir o gefnogi plant o gefndiroedd teuluol bregus trwy Glwb Blwch Llythyrau, ein rhaglen ddarllen ddwys ar gyfer plant mewn gofal maeth hirdymor. Trwy'r Clwb Blwch Llythyrau, rydym ni'n cefnogi'r plant hyn gyda 'pharseli' arbennig, wedi'u dewis yn sensitif o lyfrau ac adnoddau a ddarperir ar adegau gwahanol. Mae'r dull hwn wedi'i gynllunio i annog arferion darllen, sicrhau bod plant yn derbyn ac yn berchen ar lyfrau mewn ffordd sy'n eu helpu i deimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi.

Yn ystod 2022/23 sicrhaodd ein partneriaethau agos gydag ysgolion rhithwir, y Rhwydwaith Maethu yng Ngogledd Iwerddon a phartneriaid plant sy'n derbyn gofal eraill fod plant mewn gofal maeth hirdymor yn gallu cael gafael ar y cymorth hwn. Fe wnaethom hefyd weithio'n uniongyrchol gydag ysgolion sy'n buddsoddi yn Clwb Blwch Llythyrau i gefnogi eu disgyblion sy'n derbyn gofal a phlant eraill sy'n wynebu anfantais.

Mae BookTrust eisiau trawsnewid profiadau darllen yn y dyfodol ar gyfer carfan ehangach o blant o gefndiroedd teuluol bregus. Yn 2022/23 lansiwyd rhaglen ddysgu helaeth i lywio ein gwaith yn y dyfodol.

> **"Mae'n fy helpu i ddysgu ac rwy'n hoffi'r pethau rwy'n eu cael. Mae darllen yn dda iawn i'ch ymennydd ac rydych chi'n gwybod llawer o bethau os ydych chi'n ei ddarllen dro ar ôl tro."**
>
> Plentyn Clwb Blwch Llythyrau (8 mlwydd oed)



> **"Mae'r Clwb Blwch Llythyrau wedi datblygu fy hyder ddarllen ac mae hefyd wedi gwneud i mi ddefnyddio fy nychymyg. Pan oeddwn i'n iau, roedd yn well gen i lyfrau lluniau ond erbyn hyn mae'r Clwb Blwch Llythyrau yn amrywio faint a pha arddull rwy'n ei ddarllen."**
>
> Plentyn Clwb Blwch Llythyrau (11 mlwydd oed)



Croeso
Ynglŷn â BookTrust
1: Y Blynyddoedd Cynnar
2: Cefndiroedd bregus
3: Cymorth i ymarferwyr
4: Ysgolion
Cyfeiriadau

# Ein heffaith

Yn ystod 2022/23, gwelsom gynnydd o 10% yn nifer y plant wnaeth gofrestru ar gyfer Clwb Blwch Llythyrau, gyda mwy na **13,000 o blant** yn derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau.

**Dywedodd 96% o'r plant** a ymatebodd i'n harolwg a dderbyniodd barsel Clwb Blwch Llythyrau wrthym ni eu bod nhw'n ei **'hoffi' neu'n ei 'garu'**

**Dywedodd 68% o'r plant** eu bod nhw'n **darllen mwy ar eu pennau** eu **hunain** ar ôl derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau

## Astudiaeth achos:

### Pŵer trawsnewidiol darllen ar gyfer perthynas rhwng gofalwr maeth a mab maeth

Rhannodd y gofalwr maeth Elaine gyda ni sut mae parseli Clwb Blwch Llythyrau wedi helpu ei mab maeth 9 mlwydd oed i fagu ei hyder trwy drefn ddarllen ddyddiol gan ddod â nhw'n agosach at ei gilydd.

**"Pan ddaeth ef aton ni gyntaf, roedd tua dwy flynedd ar ei hôl hi gyda'i ddarllen. Nid oedd yn hyderus ac nid oedd yn hoffi darllen. Roedd yn meddwl ei fod yn ddiflas ac yn orchest. Cyn mynd i'r gwely, byddwn i'n darllen pum tudalen iddo a byddai ef yn darllen un. Gall fod ychydig yn boenus pan fyddant yn cael trafferth. Mae ei weld yn gwella wrth ddarllen wedi bod yn anhygoel. Dechreuodd ddarllen dwy dudalen ar y tro a byddwn i'n darllen un yn unig. Fe wnaethom ni hyn am ychydig fisoedd. Nawr, mae'n darllen yn annibynnol, ond mae'n hoffi dweud wrthyf fi am y stori.**

**Ers iddo ddod atom gyntaf, mae ein perthynas wedi newid 100%. O'r blaen, roedd yn fy nghadw i hyd braich. Nid oedd mamau yn bobl ddibynadwy iddo – roedd mamau 'yn y fan acw'. Nawr, gyda'n defod hyfryd gyda'r nos, gan gynnwys darllen straeon... mae wedi dechrau dweud wrthyf fi, "Caru ti, Laine", a byddaf fi'n dweud, "Caru ti." Mae'n hyfryd."**

Elaine, gofalwr maeth sy'n derbyn ein parseli Clwb Blwch Llythyrau ar gyfer ei mab 9 mlwydd oed

> **Mae'r llyfrau rydych chi'n eu dewis o ansawdd uchel iawn … Yr hyn rwy'n ei garu am BookTrust yw nad ydych chi wedi tybio bod gan bawb bensil gartref … dyna BookTrust yn meddwl y tu allan i'r bocs ac yn deall yn iawn.**
>
> Athro ysgol gynradd, Lloegr




## Cefnogi plant o gefndiroedd bregus: Beth ydym ni'n ei wneud nesaf?

**Mae ein blaenoriaethau newydd yn cynnwys:**

- Cynnal ein cefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal, darparu parseli Clwb Blwch Llythyrau drwy ysgolion rhithwir a llwybrau eraill.
- Profi prototeipiau newydd i ddyfnhau cymorth darllen i'r plant hyn ac ymestyn ein gwaith i garfan ehangach o blant gan gynnwys plant oedd yn derbyn gofal, y rhai sydd ar ymyl gofal 'r rhai sy'n derbyn gofal gan berthnasau.
- Sefydlu partneriaethau newydd gyda sefydliadau arbenigol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd bregus i gryfhau cyrhaeddiad ac effaith ein gwaith ymhellach.

# Maes ffocws 3: Cymorth i ymarferwyr



## *Cefnogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar i hyrwyddo darllen ar y cyd mewn teuluoedd*

### Trosolwg

Mae teuluoedd yn rhyngweithio ag ystod eang o ymarferwyr yng nghamau cynnar bywyd eu plentyn, gan gynnwys bydwragedd, ymwelwyr iechyd, staff meithrin, gwarchodwyr plant, a staff blynyddoedd cynnar mewn ysgolion. Mae BookTrust wedi gweithio'n agos gyda'r grwpiau ymarferwyr hyn ers degawdau ac yn parhau i adeiladu ein rhwydwaith o bartneriaid. Mae'r rhyngweithio mae teuluoedd yn eu cael ag ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn bwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth o fanteision darllen a modelu sut i rannu straeon. Mae teuluoedd sy'n derbyn cymorth cynnar i ddarllen gyda'u babi – er enghraifft gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill – yn fwy tebygol o ddarllen gyda'i gilydd o fisoedd cyntaf bywyd. Pan fydd ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn annog rhieni i rannu straeon a dangos iddynt sut i wneud hynny, mae gan rieni fwy o gymhelliant ac yn fwy hyderus.

Yn ystod 2022/23, fe wnaethom weithio gyda mwy o bartneriaid ymarferwyr blynyddoedd cynnar nag erioed o'r blaen. Diolch i'n rhwydwaith o bartneriaid anhygoel, roedd gennym ni fwy na 6,000 o lwybrau i deuluoedd sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ogystal â'r rhai sy'n byw mewn pocedi amddifadedd mewn ardaloedd mwy cefnog Fe wnaethom ni hefyd gryfhau ein cefnogaeth i ymarferwyr blynyddoedd cynnar. Trwy ein gwaith gwerthuso a dylunio, fe wnaethom ni ddysgu nad oedd gan rai ymarferwyr gofal plant ac addysg gynnar yn ein meysydd blaenoriaeth fynediad at ddigon o lyfrau o ansawdd uchel ac adnoddau adrodd straeon i allu ysbrydoli teuluoedd sydd wrth eu bodd â darllen ar y cyd yn gynnar. Felly, fe wnaethom ni ddatblygu a chyflwyno pecynnau Storïwr newydd yn cynnwys llyfrau, adnoddau, gweithgareddau a phropiau i ymarferwyr blynyddoedd cynnar eu defnyddio i arwain plant a theuluoedd ar anturiaethau storïau.

> **"Mae adnoddau'r BookTrust yn cefnogi rhieni yn eu dealltwriaeth o pam fod darllen yn dda, ac maen nhw'n cael eu cyflwyno mewn ffordd hawdd ei deall, fel y gall mwy o bobl ymuno. Mae llyfrau BookTrust eu hunain yn wych – ac mae'n wych hefyd gallu eu cynnig i deuluoedd na fyddai fel arall efallai yn berchen arnyn nhw gartref."**
>
> Partner Blynyddoedd Cynnar, De-orllewin Lloegr

# Ein heffaith

Roedd cynigion Dechrau Da Plant Bach, Dechrau Da Cyn oed ysgol ac Amser Stori BookTrust yn cynnwys offer cymorth corfforol a digidol ar gyfer miloedd o ymwelwyr iechyd, llyfrgellwyr a phartneriaid blynyddoedd cynnar. Rhannwyd 3,676 o'n pecynnau Storïwr newydd i'w defnyddio gyda theuluoedd mewn lleoliadau cymunedol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Derbyniodd 2,400 o lyfrgelloedd adnoddau gan gynnwys offer cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd teuluoedd newydd a llyfrau stori mewn fformat mawr i'w defnyddio mewn llyfrgelloedd mewn sesiynau rhannu straeon teuluol. Fe wnaethom ni hefyd dreialu corneli llyfrau symudol go iawn, adnoddau digidol a chefnogaeth ysbrydoledig gan awduron plant.

Rydym ni'n gwybod o'n gwerthusiad gyda phartneriaid a'r teuluoedd maen nhw'n eu cefnogi bod yr adnoddau hyn yn gwneud gwahaniaeth pwysig i ymarferwyr a, drwy'r rhain, i fywyd mewn llawer o deuluoedd incwm isel.



**“Rwy'n gwerthfawrogi gweithio gyda BookTrust. Rwyf wedi fy mhlesio'n fawr gydag ansawdd yr adnoddau a'r gefnogaeth sy'n cael ei chynnig, ac ni fyddem wedi gallu cynnig dim tebyg oni bai am BookTrust.”**

Cydlynydd Dechrau Da, De-orllewin Lloegr

Dywedodd **83% o staff y llyfrgell** a ymatebodd i werthusiad Amser Stori BookTrust wrthym ni eu bod nhw'n **hoffi neu wrth eu boddau'n gweithio gyda ni**

Roedd **88% o bartneriaid** ar draws ein rhaglenni blynyddoedd cynnar **yn teimlo bod adnoddau'r BookTrust yn eu cefnogi yn eu gwaith**

Mae **78% o ymarferwyr yn sgorio ein hadnoddau blynyddoedd cynnar yn uchel** o ran ansawdd cyffredinol

**Dywedodd 81%** o Gydlynwyr Dechrau Da **wrthym ni fod Dechrau Da yn eu helpu i gefnogi teuluoedd sydd â'r angen mwyaf**

**Dywedodd 71% o weithwyr llyfrgell wrthym ni fod Amser Stori BookTrust** wedi **helpu i gefnogi gwaith eu llyfrgell** gyda phlant dan 5 mlwydd oed

## Astudiaeth achos:

### Gwaith Blynyddoedd Cynnar BookTrust yng Ngogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, mae Canolfannau SureStart wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd uchel a'u nod yw cefnogi datblygiad a chynnydd plant. Mae ein cynigion Blynyddoedd Cynnar wedi'u hymgorffori yng ngweithgareddau SureStart ledled y wlad. Mae Beechmount SureStart yn un o rwydwaith o 37 o ganolfannau SureStart sy'n defnyddio adnoddau'r BookTrust i gefnogi plant a theuluoedd lleol ar eu teithiau darllen. Cynlluniodd Angela, gweithiwr cymorth i deuluoedd raglen bwrpasol i rannu'r adnoddau ac ysbrydoli teuluoedd i rannu llyfrau a straeon gyda'u plant.

> **"Mae'r rhaglenni y mae BookTrust wedi'u cynllunio wedi ein galluogi i gyfleu ein negeseuon i rieni mewn modd hyfryd, hawdd, cyfeillgar, lle mae'r rhieni'n teimlo bod croeso iddyn nhw. Wrth ei flas mae profi pwdin. Gyda rhai rhaglenni, fe gewch chi ddeg o bobl yn dod yr wythnos gyntaf, ond wedyn dydyn nhw ddim yn dod yn ôl. Y tro hwn, mae rhieni wedi ymgysylltu ac aros gyda'r rhaglen."**
>
> Angela McCabe, gweithiwr cymorth teuluol yn SureStart Beechmount



> **"Mae cael teuluoedd i mewn i'r llyfrgell yn anodd os nad ydyn nhw'n ymweld â ni yn barod. Mae adnoddau'r BookTrust yn ein helpu i wneud hynny."**
>
> Cydlynydd Dechrau Da, Gogledd Lloegr

## Cefnogi ymarferwyr: Beth ydym ni'n ei wneud nesaf?

**Mae ein blaenoriaethau newydd yn cynnwys:**

- Parhau i gyflwyno cefnogaeth ddigidol a chorfforol i ymarferwyr ar draws sector y blynyddoedd cynnar drwy ein Hyb Adrodd Straeon a'n hadnoddau Adrodd Straeon.
- Datblygu hyfforddiant newydd ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar. Mae hyn mewn ymateb i ganfyddiadau o'r ymchwil ddiweddaraf a nododd fod angen hyfforddiant i helpu'r sector i hyrwyddo darllen ar y cyd mewn teuluoedd yn eu cymunedau.

# Maes ffocws 4: Ysgolion

## *Cefnogi ysgolion i feithrin cariad at ddarllen*

### Trosolwg

Mae darllen ar y cyd yn parhau i fod yn gatalydd ar gyfer datblygiad plant ar ôl iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae dod i gysylltiad ag amgylchedd cyfoethog o straeon yn hybu sgiliau siarad a gwrando plant, gwybodaeth am y byd a datblygiad cymdeithasol yn ogystal ag effeithio'n sylweddol ar eu gallu i ddysgu darllen.[viii] Mae ein tystiolaeth yn dangos bod darllen er mwynhad yn dirywio pan fydd plant yn dechrau'r ysgol a bod y dirywiad hwn yn parhau trwy gydol plentyndod.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym ni'n helpu teuluoedd i fabwysiadu arferion darllen cryf, cynnar y mae plant a rhieni yn eu mwynhau. Rydym ni hefyd yn parhau i fod yn bartner allweddol i ysgolion, gan gefnogi eu gwaith ac annog disgyblion i garu a pharhau i ddarllen.

Yn 2022/23, yn ogystal ag ymestyn ein rhaglenni blynyddoedd cynnar (ar gyfer plant 0–6 mlwydd oed), fe wnaethom barhau i gefnogi plant oed ysgol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd 2022/23 yn flwyddyn bontio ar gyfer ein gwaith mewn ysgolion. Rydym ni'n adolygu sut y gallwn ni gefnogi athrawon yn well i ysgogi teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd.

**"Rydym ni wedi gwneud y Sialens Rhigwm ers tair blynedd bellach. Rydyn ni'n cyflwyno cymysgedd o rigymau Cymraeg a Saesneg ac mae gennym ni wythnos rhigymau trawsgwricwlaidd. Mae'n rhoi cyfle i rieni fod yn rhan o'r her drwy gyflwyno rhai yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn rhan o galendr yr ysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, nid plant derbyn yn unig. Mae'n ffordd o gael yr ysgol at ei gilydd."**

Athro ysgol gynradd, Cymru




Croeso
1: Y Blynyddoedd Cynnar
2: Cefndiroedd bregus
3: Cymorth i ymarferwyr
4: Ysgolion
Cyfeiriadau

# Ein heffaith

## Canllaw Llyfrau Mawr

Wrth i blant dyfu, mae dod o hyd i lyfrau sy'n ymateb i'w diddordebau a'u dewisiadau unigol yn dod yn bwysicach. Mae athrawon yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu pob plentyn i ddarganfod y llyfrau cywir iddyn nhw. Fodd bynnag, mae pwysau amser yn her fawr i athrawon, sydd angen cyfeirio hygyrch at lyfrau sy'n cefnogi eu gwaith. Mae ein Canllaw Llyfrau Mawr yn helpu athrawon i nodi llyfrau ar gyfer gwahanol oedrannau a chyfnodau, gan gwmpasu themâu gwahanol.




Yn 2022/23, dosbarthwyd ein Canllaw Llyfrau Mawr blynyddol o adolygiadau llyfrau newydd i **17,000 o ysgolion yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.**

## Amser i Ddarllen

Derbyniodd **705,000 o blant 4–5 mlwydd oed** ein rhaglen Amser i Ddarllen yn cynnwys llyfr a gwybodaeth i rieni am bwysigrwydd parhau i ddarllen gyda'u plentyn ar ôl iddynt ddechrau yn yr ysgol.




> **"Rwyf wrth fy modd yn y llyfr hwn ei fod yn gwneud i mi deimlo'n hapus pan fyddaf yn ei ddarllen. Mae'n gwneud i mi deimlo'n well pan fyddaf yn ei ddarllen ac rwy'n gallu gweld rhywbeth fel fi, ac rwy'n gallu ddeall nad fi yn unig sydd fel yna."**
>
> Plentyn BookTrust yn Cynrychioli, oedran ysgol gynradd

## BookTrust yn Cynrychioli

Mae plant angen dewis o lyfrau perthnasol o ansawdd uchel i ddatblygu eu dewisiadau a'u hunaniaeth fel darllenwyr, ac i aros yn frwdfrydig i ddarllen. Mae angen iddynt weld eu hunain a'u bywydau yn cael eu cynrychioli mewn straeon a llyfrau. Dyma pam rydym ni'n cefnogi ystod amrywiol o awduron a darlunwyr ac yn hyrwyddo llyfrau cynhwysol sy'n cynrychioli cymeriadau o gefndiroedd a safbwyntiau eang.

Yn 2022/23 fe wnaethom barhau â'n prosiect BookTrust yn Cynrychioli gan gyflwyno bron i **49,000 o blant mewn bron i 1,700 o ysgolion** i grewyr o liw a'u gwaith.



**Astudiaeth achos:**

## Pwysigrwydd cynrychiolaeth ar gyfer grymuso pobl ifanc

Dywedodd Johnoi Josephs, Pennaeth Blwyddyn Wyth yn Academi Lanfranc Archesgob Croydon, wrthym beth wnaeth cael ymweliad awdur **BookTrust yn Cynrychioli** gan Jeffrey Boakye yn ei olygu i'w disgyblion.

> **"Yn ystod ei anerchiad awdur BookTrust yn Cynrychioli, siaradodd Jeffrey Boakye am gân gan Estelle, '1980'. Cyfeiriodd at y rhan lle mae'n rapio ei bod wedi ei magu mewn aelwyd lle – ac rwy'n aralleirio – weithiau roedd hi mor oer y byddai'n rhaid iddi fynd o dan ei gorchuddion gwely. Gwnaeth i ni sylweddoli, y ffaith y gall rhai o'r myfyrwyr hyn fod yn rhannu'r profiad hwnnw. Roedd yn eiliad gwirioneddol sobreiddiol.**
>
> **I'n myfyrwyr wybod ei bod yn normal siarad am y profiadau hyn a pheidio â bod â chywilydd ohonynt, mae hynny mor bwysig. Mae'n agor y sgyrsiau hyn. Iddyn nhw gael awdur i ddod i ymweld â'u hysgol a allai fod wedi profi profiadau tebyg neu fagwraeth debyg iddyn nhw, mae'n caniatáu iddyn nhw deimlo ymdeimlad o berthyn a chysylltiad, nad ydyn nhw ar eu pennau eu hunain.**
>
> **I gael awdur yn dod i ymweld a gafodd ei fagu yn Ne Llundain, a oedd hefyd yn rhan o'r cyfnod diaspora hwn, mae hynny'n rhywbeth y gall llawer o'n myfyrwyr ei ddefnyddio i gysylltu. Rwy'n credu eu bod nhw wedi gwirioni ar weld dyn Du arall, sy'n awdur, wnaeth ysgrifennu y llyfr maen nhw'n ei ddarllen. Rwy'n gwybod eu bod nhw wedi cael eu hysbrydoli gan hynny."**
>
> Johnoi, Academi Archesgob Lanfranc, yn cymryd rhan yn BookTrust yn Cynrychioli, Croydon

## Bookbuzz

Mae mwynhad darllen yn dirywio ymhellach wrth i blant daro blynyddoedd eu harddegau. Mae ein rhaglen Bookbuzz yn helpu ysgolion uwchradd annog pobl ifanc 11–13 mlwydd oed i ddal ati i ddarllen er pleser. Mae Bookbuzz yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddewis o lyfrau sydd wedi'u dewis yn ofalus ac sydd wedi'u hysgrifennu'n benodol ar gyfer oedolion ifanc.

Yn 2022/23, gwelsom gynnydd o 8% mewn pobl ifanc yn cymryd rhan yn Bookbuzz, gyda **dros draean o ysgolion uwchradd y wladwriaeth yn cymryd rhan ac yn cyrraedd mwy na 272,000 o ddisgyblion**.



**“Cael llyfrau i ddwylo myfyrwyr nad oes ganddynt o bosibl lyfrau gartref oedd y rhan orau am Bookbuzz. Roedd gweld plant yn cofleidio llyfr ar ôl i chi ddweud wrthyn nhw y bydden nhw'n cael ei gadw yn foment arbennig, roedd yn gwneud y rhaglen yn werth chweil.”**

Athro ysgol uwchradd, defnyddiwr Bookbuzz

## Pecyn Llyfrgell Ysgol a Phecyn Llyfrgell Ysgol Arbennig

Fe wnaethom ddosbarthu ein pecyn Llyfrgell Ysgol a Llyfrgelloedd Ysgol Arbennig i dros 3,000 o ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig. Mae'r Pecyn Llyfrgell Ysgol i fyfyrwyr Blynyddoedd 7–9 yn cynnwys 15 teitl i gefnogi grwpiau darllen, hyrwyddo profiadau darllen cymdeithasol a darllen er pleser. Mae'r Pecyn Llyfrgell Ysgolion Arbennig ar gyfer myfyrwyr ag anghenion ychwanegol yn ymdrin â themâu a phynciau sy'n briodol i bobl ifanc 11–14 mlwydd oed mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch gan gynnwys llyfrau synhwyraidd a CDs sain, llyfrau cyfeillgar i ddyslecsia, nofelau ffuglen fer a graffeg.

## Cefnogi ysgolion i feithrin cariad at ddarllen: Beth ydym ni'n ei wneud nesaf?

**Mae ein blaenoriaethau newydd yn cynnwys:**

- Lansio llwyfan digidol newydd i athrawon sy'n llawn adnoddau ac offer i gefnogi eu gwaith i gael eu disgyblion i ddarllen, gyda ffocws penodol ar gefnogi ymgysylltiad rhwng y cartref a'r ysgol â darllen er pleser.
- Cau'r cynnig Amser i Ddarllen cyffredinol i'n galluogi i gynyddu ein cefnogaeth i blant mwy bregus a'r rhai o deuluoedd incwm isel.
- Cynnal y rhaglen Bookbuzz hirsefydlog ar draws ysgolion uwchradd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
- Ehangu cyrhaeddiad y rhaglen BookTrust yn Cynrychioli gan gynnwys drwy gynyddu nifer y digwyddiadau ar-lein cenedlaethol ar gyfer ysgolion ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

# Uchafbwyntiau eraill yn 2022/23

Yn ogystal â chyflawni effaith ar ein pedwar maes ffocws allweddol, roedd 2022/23 yn cynnwys ystod o weithgareddau BookTrust sy'n gysylltiedig â chael plant i ddarllen. Rydym ni'n crynhoi rhai ohonynt yma:

# 2022

## Ebrill

Ar ddechrau'r flwyddyn roeddem yn falch iawn o groesawu'r bardd a'r awdur poblogaidd **Michael Rosen** fel **Awdur Preswyl BookTrust**.

... ac fe wnaethom ni symud i'n **Prif Swyddfa** newydd yn Leeds.



## Mai

Fe wnaethom ni ddatblygu ein **Theori Newid** sefydliadol ddiwygiedig, yn seiliedig ar dystiolaeth academaidd helaeth a'n hymchwil ein hunain.



## Mehefin

Fe wnaethom ni ffarwelio'n ddiolchgar gyda **Cressida Cowell** ar ôl cyfnod rhyfeddol o dair blynedd fel **Bardd Plant Waterstones**.



## Gorffennaf

Fe wnaethom roi croeso cynnes i **Joseph Coelho** bardd perfformio, dramodydd ac awdur plant arobryn, fel **Bardd Plant Waterstones 2022–24**.



## Awst

Fe wnaethom ddechrau gweithio ar y **Bartneriaeth Adnewyddu** gyda Phrifysgol Caerwysg, y Gymdeithas Farddoniaeth a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i greu gwaith adnewyddu bioamrywiaeth mesuradwy a mynediad cynyddol at fioamrywiaeth trwy lenyddiaeth a barddoniaeth plant.



## Medi

Ymunodd **Nick Sharratt**, un o hoff awduron-darlunwyr plant y genedl, â ni fel ein Hawdur-Darluniwr Preswyl cyntaf.




## Hydref

Dechreuodd y bartneriaeth ymchwil gyda **Phrifysgol Caeredin**, ar **niwroamrywiaeth a ffuglen naratif**, gan gynnwys Barrington Stoke, National Literacy Trust, Scottish BookTrust ac arbenigwyr eraill.



## Tachwedd

Daeth BookTrust yn **Sefydliad Portffolio Cenedlaethol** Cyngor Celfyddydau Lloegr ...

... ac fe wnaethon ni ryddhau'r trydydd adroddiad ymchwil BookTrust yn Cynrychioli yn olrhain **'Cynrychiolaeth o bobl o liw ymhlith crewyr llyfrau plant'**.



## Rhagfyr

Fe wnaethom gynnal ein **hymgyrch codi arian Nadoligaidd** i ddod â hud storïau i blant sy'n byw mewn tlodi a'r rhai o gefndiroedd teuluol bregus.



# 2023

## Ionawr

Fe wnaethom ddatblygu ein **teclyn rhyngweithiol Manteision Darllen** ar gyfer ymarferwyr a sefydliadau sy'n cefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd.

**English**; **Cymraeg**



## Chwefror

Fe wnaethom ni gwblhau ein cynllun busnes a'n blaenoriaethau strategol ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar fewnwelediadau o'n gweithgareddau dysgu 2022/23.



## Mawrth

Fe wnaethom ni weithio mewn partneriaeth â **Diwrnod y Llyfr** ar **gyfres o ddigwyddiadau** arbennig ar gyfer teuluoedd blynyddoedd cynnar gyda'r awduron **Joe Wicks**, **Sophy Henn** a **Tom Percival**.

Fe wnaeth ein Noddwr, **Ei Mawrhydi'r Frenhines** a **Bardd Plant Waterstones**, Joseph Coelho, gefnogi'r digwyddiad, **gan rannu eu cariad at lyfrau**.



## Trwy gydol y flwyddyn...

Fe wnaethom gefnogi **sefydliadau ledled y byd** sy'n ceisio gwell ymddygiadau darllen, gan ymgynnull a rhannu arfer gorau trwy:

- ***EURead***
  (35 o aelodau, 23 o wledydd)
- ***Rhwydwaith Byd-eang***
  (28 o aelodau, 25 o wledydd)



Rydym ni'n edrych ymlaen at rannu gwersi o 2023/24 gyda chi yn ddiweddarach yn 2024.

Am fwy o wybodaeth am waith cyfredol BookTrust, gweler **tudalen 9**, '**Darllen gyda'n gilydd, newid bywydau plant**' ac **www.booktrust.org.uk**.




Croeso
Ynglŷn â BookTrust
1: Y Blynyddoedd Cynnar
2: Cefndiroedd bregus
3: Cymorth i ymarferwyr
4: Ysgolion
Cyfeiriadau

# Cyfeiriadau a Methodoleg

Mae BookTrust yn cynnal ymchwil ac ymarfer gwerthuso helaeth gyda theuluoedd a phlant. Mae'r ymchwil hon yn llywio ein dealltwriaeth o rôl darllen ym mywydau teuluoedd, arferion darllen teuluoedd a phlant, a'r rhwystrau a'r cymhellion maen nhw'n eu hwynebu. Yn ein gwaith gwerthuso rydym ni'n gofyn am adborth gan bartneriaid yn rheolaidd drwy arolygon a sgyrsiau manwl.

Mae ymchwil a gwerthusiad BookTrust a ddyfynnir yn y ddogfen hon yn cynnwys:

| | Gweithgaredd dysgu | Maint y sampl a'r gynulleidfa |
|---|---|---|
| Arolwg Teulu BookTrust 2022 | **Arolwg ar-lein gyda theuluoedd incwm isel** | **2,148 o rieni/gofalwyr incwm isel plant 0–7 mlwydd oed** |
| Arolwg Teulu BookTrust 2021 | **Arolwg ar-lein gyda theuluoedd ar draws pob grŵp incwm** | **7,871 rhieni/gofalwyr plant 0-17 mlwydd oed a phlant 7–17 mlwydd oed, 500 o neiniau a theidiau incwm isel** |
| Ymchwil Darganfod Blynyddoedd Cynnar (2022/23) BookTrust | **DeepReal ar-lein ac ethnograffeg bersonol** | **66 o rieni/ gofalwyr plant 0–5 mlwydd oed incwm isel** |
| Gwerthusiad (2022/23) Dechrau Da Plant Bach (1–2 mlwydd oed) a Dechrau Da Cyn oed ysgol (3–4 mlwydd oed) | **Ymchwil dulliau cymysg rhaglenni Dechrau Da Plant Bach a Dechrau Da Cyn oed ysgol** | **Dros 600 o rieni/gofalwyr plant 0-5 mlwydd oed a bron i 300 o bartneriaid cyflenwi** |
| Amser Stori BookTrust Gwerthusiad (2022/23) | **Dulliau cymysg ymchwil llyfrgell partneriaid cyflawni Amser Stori BookTrust** | **Tua 200 partneriaid llyfrgell** |

| | | |
|---|---|---|
| Gwerthusiad Clwb Blwch Llythyrau BookTrust (2021–23) | **Arolwg papur o blant sy'n derbyn drwy'r Clwb Blwch Llythyrau** | **609 o blant 6–14 mlwydd oed (ar draws 2 flynedd)** |
| Cynrychiolaeth o bobl o liw ymhlith crëwyr llyfrau plant yn y Deyrnas Unedig, *Ramdarshan Bold 2022* | **Dadansoddiad o gronfa ddata llyfrau plant wedi'u cyhoeddi yn y DU yn 2021 a chyfweliadau manwl** | **20 cyfweliad manwl gyda chrewyr o liw o'r Deyrnas Unedig** |
| Gwerthusiad Dechrau Da Babi (2021–23) | **Arolwg ar-lein o rieni/gofalwyr sy'n derbyn llyfrau Dechrau Da Babi** | **Dros 500 o rieni/gofalwyr plant 0–1 mlwydd oed** |
| Canfyddiadau Derbyn Pori Drwy Stori (2021–22) | **Arolwg ar-lein o athrawon ysgolion cynradd** | **49 o athrawon ysgol gynradd** |

## Cyfyngiadau:

Ar draws ein holl waith gwerthuso, rydym ni'n clywed gan grwpiau amrywiol o deuluoedd a phartneriaid. Fodd bynnag, fel gyda'r holl waith gwerthuso, ni allwn fyth fod yn sicr bod barn y rhai sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau dysgu yn gwbl gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach o bartneriaid a theuluoedd sy'n rhan o'n gwaith. Rydym ni'n buddsoddi mewn gwerthusiadau dulliau cymysg i adeiladu asesiad cyflawn a chadarn o'n heffaith, gan wirio dilysrwydd ein canfyddiadau o sawl ffynhonnell.



# Cyfeiriadau allanol


i Francis-Devinle, B. (2023). Tlodi yn y Deyrnas Unedig: ystadegau. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin:

ii ii Francis-Devinle, B. (2023). Tlodi yn y Deyrnas Unedig: ystadegau. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin:

iii ICAN (2023). Siarad dros Genhedlaeth Covid.

iv Chacko, A., Fabiano, G. A., Doctoroff, G. L., & Fortson, B. (2018). Engaging fathers in effective parenting for preschool children using shared book reading: Treial dan reolaeth ar hap. Journal of Clinical Child & Adolescent Psychology, 47(1), 79–93.

v Hutton, J. S., Phelan, K., Horowitz-Kraus, T., Dudley, J., Altaye, M., DeWitt, T., & Holland, S. K. (2017). Shared reading quality and brain activation during story listening in preschool-age children. The Journal of Pediatrics, 191, 204–211.

vi Jones, C. H., & Ball, H. (2014). Exploring socioeconomic differences in bedtime behaviours and sleep duration in English preschool children. Infant and Child Development, 23(5), 518–531.

vii Canfield, C. F. et al. (2020). Beyond language: Impacts of shared reading on parenting stress and early parent–child relational health. Developmental Psychology, 56(7), 1305.

viii Mol, S. E., & Bus, A. G. (2011). To read or not to read: a meta – analysis of print exposure from infancy to early adulthood. Psychological Bulletin, 137(2), 267; Dowdall, N., et al. (2020). Shared picture book reading interventions for child language development: A systematic review and meta – analysis. Child Development, 91(2), e383–e399.

Am drafodaeth am sut y gallwch chi ymuno â ni i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant drwy hud a lledrith darllen, cysylltwch â ni drwy: **impact@booktrust.org.uk**



BookTrust
Getting children reading

## Cysylltu â ni


impact@booktrust.org.uk

**booktrust.org.uk**

Dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol @BookTrust



©2024 BookTrust. Rhif yr elusen: 313343



Arts Council England
Supported using public funding by
ARTS COUNCIL ENGLAND

MRS™ Awards 2023
Winner
Activation of Insight